Ysgol Cwm y Glo
Llythyr Mis Gorffennaf

Gwisg Ysgol

Mae ychydig o siwmperi (£8.00) a chyrysau polo (£5.50) maint 3/4 a 5/6 yn yr ysgol os ydych angen archebu rhai erbyn mis Medi.

Cofiwch hefyd am y capiau pig a'r bagiau darllen!

Braf iawn yw cael cyhoeddi bod Miss Kelly Williams wedi cychwyn ar ei swydd cymhorthydd clerigol yr ysgol.
Bydd wedi hen setlo ac ymgyfarwyddo erbyn mis Medi felly hi fydd eich cyswllt yn y swyddfa! Croeso cynnes iawn iddi i Ysgol Cwm y Glo.

Dyddiadau i'w Cofio

6/7/09 - Prynhawn Agored i Rieni
14/7/09 - Trip Ysgol - Gelli Gyffwrdd
16/7/09 - Gwasanaeth ffarwelio a Bl 6 (prynhawn)
17/7/09 - Diwedd Tymor yr Haf (Parti Bl 6 wedi ei drefnu gan eu rhieni.)
1/9/09 - Ysgol yn ail-gychwyn i'r athrawon
2/9/09 - *Ysgol yn ail-gychwyn i'r plant*

Mabolgampau yr Ysgol

Roedd y tywydd yn ffafriol a phawb yn mwynhau wrth i'r plant gystadlu yn iach! Diolch yn fawr iawn i bawb am ein cynorthwyo - y plant am eistedd yn eu timau, y rhieni am ein helpu gyda'r linnell derfyn a'r ennillwyr, Miss Williams, Miss Chelsey a Miss Evans am gadw cofnod o'r pwyntiau ac wrth gwrs i Mrs. J. Roberts am drefnu ei mobolgampau olaf!!

Llongyfarchiadau Mawr i'r Tim Buddugol - PADARN!

Cofiwch yrru y plant i'r ysgol gyda capiau/hetiau haul a digon o eli haul pan mae'r tywydd yn boeth!

Nid oes llawer o gysgod ar y buarth - a 'da ni ddim eisiau gweld neb yn dioddef.

Ar ddiwedd tymor ga'i ofyn i bawb sicrhau eu bod wedi talu unrhyw ddyledion cyn dydd Iau, Gorffennaf 16 os gwelwch yn dda? Rwyf yn ymwybodol bod 'na ddyledion cinio a gwersi corn (Sieciau yma i Gyngor Gwynedd) ac hefyd arian i'r ysgol am luniau ysgol, gwisg ysgol, tripiau, bws nofio a.y.y.b.
Rwyf yn awyddus i Mr. Jackson a Miss Williams gychwyn yn y swyddfa gyda llechen lan felly mi fyswn yn gwerthfawrogi ymdrech bawb i dalu'r hyn sydd yn ddyledus.
Diolch yn fawr!

Arian Cinio - £1.80 y dydd neu £9.00 am yr wythnos.

Ffarwel

Mae pawb yn drist wrth i ni ffarwelio a disgyblion Blwyddyn 6 - Lilac, Fern, Holly a Shannon, Danny, Sion, Matthew, Aiden, Matthew ac Oisin. Ein dymuniadau gorau i chwi yn Ysgol Brynrefail! Ffarwel hefyd i'w athrawes Mrs Jen Roberts sydd wedi penderfynnu ein gadael wedi 15 mlynedd hapus yn yr Ysgol. Pob Lwc yn eich swydd newydd gyda 'Delwedd' - cofiwch ddod draw i'n gweld unrhyw adeg - bydd croeso mawr ar eich hol!

Y cwbl sydd ar ol i mi 'wneud ydy dymuno gwyliau braf i chi a diolch i chwi oll - staff, plant, rhieini a llywodraethwyr am eich cefnogaeth tra bum 'mewn gofal' o'r ysgol. Rwyf wedi elwa o'r profiad ac yn edrych ymlaen i weithio nawr o dan arweiniad Mr. Garem Jackson.

DIOLCH YN FAWR IAWN BAWB !